# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Trosolwg

Fel dosbarth, rydym yn mynd i greu **busnes**. Ein **cynnyrch** bydd blwyddlyfr, yn dathlu ein hamser yn yr ysgol. Byddwn yn gwerthu'r llyfrau hyn i deulu a ffrindiau, er mwyn gwneud **elw**.

## Beth yw blwyddlyfr?

Mae blwyddlyfr yn llyfr sy'n cael ei greu i ddathlu a chofio eich amser yn yr ysgol. Mae'n ffordd o gipio atgofion y plant a'r staff a sut yr oedd pethau pan gafodd ei greu. Mae rhieni yn hoffi cael blwyddlyfrau i edrych yn ôl arnyn nhw, wrth i'w plentyn dyfu i fyny. Mae plant yn hoffi edrych yn ôl ar eu hatgofion eu hunain wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn. Mae athrawon yn hoffi gweld y plant y maen nhw wedi'u dysgu dros y blynyddoedd a sut maen nhw wedi tyfu.

Gall blwyddlyfr gynnwys ffotograffau, straeon doniol, llythyrau gan staff a darluniau. Gall blwyddlyfr gynnwys unrhyw beth a fydd yn gwneud atgof braf yn y dyfodol.

## Creu busnes

Byddwn yn creu cynllun busnes, er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau da am ein blwyddlyfr. Bydd y cynllun busnes hefyd yn ein helpu i ddarganfod yr holl bethau y mae angen i ni eu gwneud.

Bydd ein cynllun busnes yn cynnwys:

**Swyddogaethau Tîm**

Y gwahanol swyddogaethau y byddwn yn eu cyflawni yn ystod y prosiect.

**Ymchwil i'r Farchnad**

Gwybodaeth yr ydym wedi'i chasglu gan bobl a allai brynu ein blwyddlyfr.

**Strategaeth Farchnata**

Y ffordd y byddwn yn hyrwyddo ein blwyddlyfr ac yn annog pobl i'w brynu.

**Cynnwys y Blwyddlyfr**

Yr hyn y byddwn yn ei roi yn ein blwyddlyfr.

**Ystyriaethau a Chostau Argraffu**

Yr wybodaeth sydd ei hangen i argraffu ein blwyddlyfr, a chost ei argraffu.

**Elw a Cholled**

Ein cyfrifiadau, i benderfynu faint o elw y byddwn yn ei wneud.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Swyddogaethau tîm

Bydd pob aelod o'r tîm yn gweithio ar bob rhan o'r prosiect, ond bydd gan bob un ohonom ein swyddogaeth ein hun. Bydd ein swyddogaeth yn cael ei dewis i gyd-fynd â'n sgiliau a'n cryfderau a bydd yn rhoi maes cyfrifoldeb i bob un ohonom ni.

Isod ceir rhestr o'r holl swyddogaethau sydd eu hangen ar gyfer ein prosiect a pha sgiliau a chryfderau sy'n addas i'r swyddogaethau hyn:

### Rheolwyr Prosiect

Y Rheolwyr Prosiect fydd yn gyfrifol am drefnu'r prosiect.
Byddan nhw'n sicrhau yn gyson bod digon o amser o hyd a bod yr holl waith yn cael ei wneud.

Mae Rheolwyr Prosiect da yn:

- Ddatryswyr problemau
- Trefnus
- **Cyfathrebwyr** da

### Rheolwyr Marchnata

Mae'r Rheolwyr Marchnata yn gyfrifol am **hyrwyddo** a gwerthu **cynnyrch**.
Bydd y Rheolwyr Marchnata yn cynnig syniadau da i annog pobl i brynu'r blwyddlyfrau.

Mae Rheolwyr Marchnata da yn:

- Greadigol
- **Mentrus**
- Cyfeillgar

### Rheolwyr Cynnwys Delweddau

Bydd y Rheolwyr Cynnwys Delweddau yn gyfrifol am wirio **ansawdd** lluniau a delweddau.
Byddan nhw'n dewis pa rai i'w defnyddio, os oes gormod.

Mae Rheolwyr Cynnwys Delweddau da yn:

- Greadigol
- Artistig
- **Trylwyr**

### Rheolwyr Cynnwys Ysgrifenedig

Bydd y Rheolwyr Cynnwys Ysgrifenedig yn gwirio'r holl eiriau yn y blwyddlyfr. Byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod y geiriau'n addas, byddan nhw'n gwirio sillafu ac yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n ysgrifennu ar gyfer y blwyddlyfr.

Mae Rheolwyr Cynnwys Ysgrifenedig da yn:

- Greadigol
- Da am ysgrifennu
- Cyfathrebwyr da

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Rheolwyr AD

Mae AD yn golygu **Adnoddau Dynol** ac mae'n ymwneud â phobl.
Mae'r Rheolwyr AD yn gwneud yn siŵr bod pawb yn hapus ac yn cyd-dynnu.
Os nad yw pobl yn cyd-dynnu, mae'r Rheolwyr AD yn eu helpu i ddatrys eu problemau.

Mae Rheolwyr AD da yn:

- Gyfeillgar
- Peidio â chynhyrfu
- Positif

## Rheolwyr Dylunio

Mae'r Rheolwyr Dylunio yn gyfrifol am olwg derfynol y blwyddlyfr.

Byddan nhw'n gwneud penderfyniadau am **gynllun**, lliwiau ac arddulliau.

Mae Rheolwyr Dylunio da yn:

- Greadigol
- Artistig
- Da gyda chyfrifiaduron

## Rheolwyr Cyllid

Mae'r Rheolwyr Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod yr **Elw a'r Golled** yn gywir.
Byddan nhw hefyd yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau am gost neu bris.

Mae Rheolwyr Cyllid da yn:

- Drefnus
- Da gyda rhifau
- Trylwyr

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:**

**Dosbarth:**

## Ein swyddogaethau penodedig

**Ein Rheolwyr Prosiect yw:**

**Ein Rheolwyr Marchnata yw:**

**Ein Rheolwyr Cynnwys Delweddau yw:**

**Ein Rheolwyr Cynnwys Ysgrifenedig yw:**

**Ein Rheolwyr AD yw:**

**Ein Rheolwyr Dylunio yw:**

**Ein Rheolwyr Cyllid yw:**

**Enw:** **Dosbarth:**

## Ymchwil i'r farchnad

Byddwn yn dechrau drwy gael gwybodaeth am bwy fydd eisiau prynu ein blwyddlyfr a faint y bydden nhw'n ei dalu amdano. Enw'r broses o gasglu'r wybodaeth hon yw **ymchwil i'r farchnad.** Y **farchnad** yw'r grŵp o bobl a allai brynu ein cynnyrch. **Ymchwil** yw'r hyn yr ydym yn ei wneud wrth gasglu gwybodaeth, fel ymchwiliad.

Byddwn yn creu **Holiadur Ymchwil i'r Farchnad**, sef rhestr o gwestiynau y byddwn yn gofyn i bobl eu hateb. Bydd yr atebion yn ein helpu i ddarganfod gwybodaeth bwysig am ein **cwsmeriaid**.

Gelwir yr atebion y byddwn yn eu cael yn **ddata**, ac maen nhw'n ein helpu i wneud penderfyniadau am ein blwyddlyfr. Byddwn yn rhoi cwestiynau i'r cwsmeriaid y maen nhw'n eu hateb drwy roi tic mewn blychau. Er mwyn ein helpu i ddeall y **data**, byddwn yn llunio graffiau a siartiau.

### Bydd angen i ni wybod:

- Pwy fyddai'n prynu ein blwyddlyfrau?
- Pam bydden nhw'n prynu ein blwyddlyfrau?
- Faint fydden nhw'n ei dalu?
- Beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn y blwyddlyfr?
- Beth yw eu proffil? Oedran? Rhyw? Perthynas? (Teulu? Ffrind? Arall?)

Po fwyaf o holiaduron ymchwil i'r farchnad a gaiff eu cwblhau, y mwyaf defnyddiol fydd ein data.

### Proffiliau Cwsmeriaid

Gadewch i ni edrych ar yr holl **ddata** sydd gennym o'n holiaduron a chael syniad o bwy sy'n debygol o brynu ein blwyddlyfr. Gwahanwch yr holiaduron yn bentyrrau o bwy **fyddai'n** prynu'r blwyddlyfr a phwy **na fyddai'n** prynu'r blwyddlyfr. Pa un o'r pentyrrau hyn sy'n rhoi'r wybodaeth fwyaf defnyddiol i ni?

Edrychwch ar yr atebion o'r pentwr o wybodaeth **ddefnyddiol**. Nifer y rhai...

| Gwryw? | Benyw? |
|---|---|
| | |

| Dan 13 oed? | 13-18 oed? | 19-25 oed? | 26-50 oed? | Dros 50 oed? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| Teulu? | Ffrindiau? | Eraill? |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r atebion mwyaf cyffredin yn rhoi proffil cwsmer i ni. Darlun o'r math o berson fyddai'n prynu ein blwyddlyfr.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** **Dosbarth:**

## Pris

Mae angen i ni benderfynu faint i'w godi ar ein cwsmeriaid am ein blwyddlyfr.
Os bydd ein pris yn rhy isel, ni fyddwn yn gwneud **elw**. Efallai y byddwn yn gwneud **colled**.
Os bydd ein pris yn rhy uchel, ni fyddwn yn gwerthu digon o flwyddlyfrau i wneud elw. Efallai y byddwn yn gwneud colled.
Fe wnaethom ofyn i'n cwsmeriaid faint y bydden nhw'n ei dalu am ein blwyddlyfr. Rydym ni wedi rhoi'r wybodaeth hon mewn siart far. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddewis **Pris** a gosod **Targed Gwerthiannau.**

Llenwch y graff isod neu crëwch eich un eich hun.
Mae ein siart far yn dangos nifer y bobl a wnaeth roi tic ym mhob un o'r blychau prisiau

| | Dan £10 | Hyd at £15 | Hyd at £20 | Hyd at £25 | Hyd at £30 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |
| 7 | | | | | |
| 8 | | | | | |
| 9 | | | | | |
| 10 | | | | | |
| 11 | | | | | |
| 12 | | | | | |
| 13 | | | | | |
| 14 | | | | | |
| 15 | | | | | |
| 16 | | | | | |
| 17 | | | | | |
| 18 | | | | | |
| 19 | | | | | |
| 20 | | | | | |

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:**

**Dosbarth:**

| | Dan £10 | Hyd at £15 | Hyd at £20 | Hyd at £25 | Hyd at £30 |
|---|---|---|---|---|---|
| 21 | | | | | |
| 22 | | | | | |
| 23 | | | | | |
| 24 | | | | | |
| 25 | | | | | |
| 26 | | | | | |
| 27 | | | | | |
| 28 | | | | | |
| 29 | | | | | |
| 30 | | | | | |
| 31 | | | | | |
| 32 | | | | | |
| 33 | | | | | |
| 34 | | | | | |
| 35 | | | | | |
| 36 | | | | | |
| 37 | | | | | |
| 38 | | | | | |
| 39 | | | | | |
| 40 | | | | | |
| 41 | | | | | |
| 42 | | | | | |
| 43 | | | | | |
| 44 | | | | | |
| 45 | | | | | |
| 46 | | | | | |
| 47 | | | | | |
| 48 | | | | | |
| 49 | | | | | |
| 50 | | | | | |

**Enw:**

**Dosbarth:**

## Cynnyrch

Mae angen i ni edrych ar beth mae ein cwsmeriaid eisiau ei weld yn ein blwyddlyfr. Bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn pan fyddwn yn dylunio ein cynnyrch, fel dewis cynnwys y blwyddlyfr.

Rhowch y data mewn siart far a'i hatodi yma.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** **Dosbarth:**

## Crynodeb o'r ymchwil i'r farchnad

Beth ydym ni wedi ei ddysgu am ein cwsmeriaid o'n hymchwil i'r farchnad?
Fe wnaethom ni ddysgu am **Broffiliau Cwsmeriaid** a gweld bod gan ein cwsmeriaid tebygol bethau yn gyffredin.

**Ein cwsmeriaid tebygol** ______________________________

Fe wnaethom ni edrych ar faint o'n **cwsmeriaid tebygol** fyddai'n prynu ein blwyddlyfr am bob pris.
Yn seiliedig ar y data hyn, fe wnaethom ni osod **y Targed Gwerthiannau** a'r **Pris** canlynol.

**Ein pris am bob blwyddlyfr** ______________________________

**Ein targed gwerthiannau** ______________________________

Dywedodd ein cwsmeriaid wrthym hefyd beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn ein blwyddlyfr

**Mae llawer o gwsmeriaid yn dymuno gweld y pethau hyn yn ein blwyddlyfr** ______________________________

Fe wnaethom ni gasglu data ynghylch pam y byddai pobl yn prynu ein blwyddlyfr

**Fe wnaethom ni weld mai'r atebion mwyaf cyffredin oedd** ______________________________

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Strategaeth farchnata

Mae gennym ni wybodaeth ddefnyddiol iawn o'n hymchwil i'r farchnad. Gan ein bod ni'n gwybod pwy yw ein cwsmeriaid tebygol bellach, mae'n rhaid i ni benderfynu sut y byddwn yn **hyrwyddo** ac yn **annog** gwerthiannau i'r **cwsmeriaid tebygol** hynny.

### Brand

Eich dosbarth sy'n berchen ar y busnes a'r blwyddlyfr yw eich cynnyrch.

Beth am roi **hunaniaeth** i'n busnes?

Meddyliwch am y gwaith a wnaethom ar frand ac ysgrifennwch neu darluniwch syniadau ar gyfer gwahanol feysydd brand. Meddyliwch am bersonoliaeth eich dosbarth wrth archwilio eich syniadau.

Efallai fod eich busnes chi:

- Yn hwyl
- Yn ddifrifol
- Yn gyfeillgar
- O ansawdd uchel
- O werth da
- Yn blentynnaidd
- Yn aeddfed
- Yn onest
- Yn garedig

Ysgrifennwch eiriau neu enwau a allai fod yn dda ar gyfer eich **enw busnes**.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** **Dosbarth:**

Rhowch gynnig ar wahanol liwiau i ddod o hyd i rai sy'n edrych yn dda gyda'i gilydd ac sy'n addas i'ch **brand.**

Brasluniwch luniau a fyddai'n gwneud **logo** da ar gyfer eich **brand**.
Gallech chi lunio symbolau, siapiau, anifeiliaid, gwrthrychau, pobl neu wynebau. Gallwch chi chwilio am ysbrydoliaeth yn eich ystafell ddosbarth, eich ysgol a'ch cymuned.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** **Dosbarth:**

Ysgrifennwch eiriau neu ymadroddion sy'n dweud wrth y **cwsmer** am eich **busnes** a'i bersonoliaeth.

Fel dosbarth, gweithiwch gyda'ch gilydd i gytuno ar **enw, logo, lliwiau** a **slogan terfynol.**

Darluniwch isod eich logo, yn y lliwiau yr ydych wedi eu dewis. Ychwanegwch eich **enw busnes** a slogan terfynol at y ddelwedd.

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Hysbysebu

Byddwn yn **hyrwyddo** ein blwyddlyfrau i **annog** mwy o gwsmeriaid i brynu ein llyfrau.

Trwy'r ymchwil i'r farchnad, fe wnaethom ni nodi ein **cwsmeriaid tebygol**. Sut gallwn ni ddweud wrth y **cwsmeriaid** hyn am ein **cynnyrch**? Meddyliwch am syniadau i ddweud wrth ein **cwsmeriaid** am ein blwyddlyfr.

Gan fod gennym syniadau bellach i ddweud wrth **gwsmeriaid** am ein **cynnyrch**, mae angen i ni feddwl am sut yr ydym yn eu **hannog** i'w brynu? Pa bethau y mae angen i ni eu cynnwys yn ein hysbysebion i wneud iddyn nhw **eisiau ei brynu**? Rhestrwch bethau y mae angen i ni eu cynnwys yn ein gwaith **hysbysebu**.

**Enw:**

**Dosbarth:**

## Cynnwys y blwyddlyfr

Mae angen i ni benderfynu beth fydd yn cael ei gynnwys yn ein blwyddlyfrau. Yn gyntaf, gadewch i ni edrych ar gyfle i **gynhyrchu** mwy o **elw** o'n blwyddlyfr.

### Lle Noddi

Un ffordd o wneud ychydig mwy o arian o'n blwyddlyfrau yw gwerthu lle **hysbysebu i fusnesau** lleol. Gallen nhw noddi ein blwyddlyfr a rhoi **hysbyseb** ynddo. Byddai hyn yn annog pobl i brynu eu **nwyddau** neu eu **gwasanaethau**.

Er mwyn gwerthu **nawdd** i **fusnesau** bydd angen i ni gysylltu â nhw.

Gan ddefnyddio'r blwch isod, ysgrifennwch lythyr drafft y gellid ei bostio neu ei e-bostio i fusnesau.

Mae'n rhaid i'r llythyr gynnwys y manylion pwysig hyn. Trafodwch nhw fel dosbarth cyn ysgrifennu eich llythyr.

- Pwy ydym ni?
- Pam ydym ni'n gwneud blwyddlyfr?
- Faint ydym ni'n bwriadu eu gwerthu?
- Faint fydd y gost i'r busnes i noddi ein blwyddlyfr?
- Pa mor fawr fyddai eu **hysbyseb**?
- A fydd angen iddyn nhw **ddylunio** eu **hysbyseb** eu hunain?
- Sut dylen nhw ymateb os ydyn nhw'n dymuno noddi ein blwyddlyfr?

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Tudalennau ein blwyddlyfr

Fe wnaethom ni ofyn i'n cwsmeriaid beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn ein blwyddlyfr. Edrychwch yn ôl ar y data hynny, a meddyliwch am beth hoffech chi ei weld yn y blwyddlyfr?

Ystyriwch y syniadau canlynol ac ychwanegwch unrhyw syniadau eich hun. Mewn pensil, ysgrifennwch faint o dudalennau o bob math ddylai fod yn eich blwyddlyfr.

| Math o Dudalen | Cynnwys ✓ neu X | Nifer y Tudalennau |
|---|---|---|
| Tudalennau Lluniau (3 llun y dudalen) | | |
| Cerddi – Am ein hysgol, ein diddordebau, ein hatgofion, ein hathro, neu ein gilydd. | | |
| Erthyglau – Ein barn ar faterion pwysig neu'r dyfodol. | | |
| Straeon – Straeon doniol am ein hamser gyda'n gilydd yn yr ysgol gynradd. | | |
| Cyfweliadau – Gofynnwch i athrawon neu blant am eu hatgofion neu eu barn ar ein hysgol. | | |
| Gwaith celf – Darluniau o'n gilydd neu enghreifftiau o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn ystod ein cyfnod yn yr ysgol gynradd. | | |
| Llythyrau neu negeseuon – Gallai staff neu ddisgyblion yr ysgol ysgrifennu negeseuon ffarwelio neu atgofion. | | |
| Nawdd – Gallai busnesau lleol dalu am rywfaint o le i hysbysebu eu cynnyrch a'u gwasanaethau. Dylid caniatáu hanner tudalen i bob hysbyseb. | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Fel dosbarth, penderfynwch ar restr derfynol o **gynnwys** a thudalennau a'i hysgrifennu yn y tabl uchod.

**Enw:** | **Dosbarth:**

## Costau ac ystyriaethau argraffu

Cyn i ni wneud ein blwyddlyfr, mae angen i ni wybod mwy am ei argraffu.

Bydd angen rhywfaint o gymorth arnom ni i argraffu'r blwyddlyfrau. Gallwn dalu busnes argraffu i argraffu ein blwyddlyfr, ond mae angen i ni wybod faint fydd y gost.

Mae angen i ni ateb y cwestiynau pwysig hyn i helpu'r busnes argraffu i ddweud wrthym faint fydd cost argraffu ein blwyddlyfrau.

Trafodwch y cwestiynau hyn fel dosbarth, ac ysgrifennwch yr atebion isod.

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Sawl tudalen sydd yn ein blwyddlyfr? | |
| Ydym ni eisiau **clawr caled** neu **glawr papur**? | |
| A oes llawer o liwiau yn ein blwyddlyfr? | |
| Sawl blwyddlyfr ydym ni'n meddwl y byddwn ni'n eu gwerthu? | |

Cost argraffu bob blwyddlyfr fydd: £ ☐☐☐ . ☐☐

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:** **Dosbarth:**

## Elw a cholled

Mae angen i ni gyfrifo a fydd ein prosiect yn gwneud **elw**, neu a fydd yn gwneud **colled**.

Mae busnes yn gwneud **elw** pan fydd yn cael mwy o arian nag y mae'n ei wario. Mae busnesau yn ceisio gwneud **elw** bob amser.

Mae busnes yn gwneud **colled** pan fydd yn gwario mwy o arian nag y mae'n ei gael.

Byddwn yn defnyddio'r swm tynnu hwn i benderfynu a fyddwn yn gwneud elw neu golled:

| Incwm | - | Costau |
|---|---|---|
| *Yr arian yr ydym yn ei gael* | *Tynnu* | *Yr arian yr ydym yn ei wario* |

**Incwm** yw'r arian yr ydym yn ei gael.

Er mwyn gweithio allan ein **hincwm** o **werthu'r blwyddlyfrau**, byddwn yn defnyddio swm lluosi.

Edrychwch yn ôl ar yr **Ymchwil i'r Farchnad** i gael y **Pris** y byddwn yn ei godi am ein blwyddlyfrau a **Nifer y Blwyddlyfrau** yr ydym yn <u>*credu*</u> y byddwn yn eu gwerthu.

| | Lluosi | £ Punt | | Degolyn | c Ceiniog | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pris fesul Blwyddlyfr | x | | | . | | |
| Nifer y Blwyddlyfrau | | | | . | | |
| Cyfanswm | £ | | | . | | |

Cyflwynwyd gan:

Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:**

**Dosbarth:**

Efallai y bydd gennym ni **incwm** arall, fel busnesau sydd wedi hysbysebu yn ein blwyddlyfr.
Mae'n rhaid i ni **adio'r** incwm hwn, i gael **cyfanswm yr incwm**.
Adiwch ein holl incwm isod i weithio allan **cyfanswm yr incwm.**
Dechreuwch drwy adio'r incwm o **werthu'r blwyddlyfrau**.

| Incwm | Adio | £ Punt | | Degolyn | c Ceiniog | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerthu'r Blwyddlyfrau | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | + | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| Cyfanswm yr Incwm | **£** | | | . | | |

Cyflwynwyd gan:

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

| Enw: | Dosbarth: |
|---|---|

## Costau

Yn aml caiff hyn ei alw yn **wariant**. Dyma gyfanswm yr arian y byddwn yn ei wario.

Mae argraffu'r blwyddlyfrau yn **wariant**.
Rydym wedi defnyddio swm lluosi i weithio allan ein **cost argraffu**.

Rydym yn lluosi cost argraffu *pob un* blwyddlyfr gyda nifer y blwyddlyfrau y byddwn yn eu prynu.

| | Lluosi | £ Punt | | Degolyn | c Ceiniog | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost fesul Blwyddlyfr | X | | | . | | |
| Nifer y Blwyddlyfrau | | | | . | | |
| Cyfanswm y Gost Argraffu | £ | | | . | | |

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:**

**Dosbarth:**

Efallai bydd gennym ni gostau eraill i'w hystyried. Er enghraifft, gall yr argraffydd godi ffi ddosbarthu. Ychwanegwch y costau hyn, i weithio allan **cyfanswm y gwariant**. Dechreuwch drwy ychwanegu'r **gost argraffu** y gwnaethom ei chyfrifo uchod.

| Costau | Adio | £ Punt | | Degolyn | c Ceiniog | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Argraffu | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | + | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| | | | | . | | |
| Cyfanswm y Gwariant | £ | | | . | | |

Cyflwynwyd gan:

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu



Lle mae cartref yn bwysig
Adnoddau Sgwad Safio Dylan

# Cynllun busnes: Prosiect blwyddlyfr

**Enw:**

**Dosbarth:**

Gan ein bod ni bellach yn gwybod **cyfanswm yr incwm a chyfanswm y gwariant**, gallwn benderfynu a fyddwn yn gwneud **elw** neu **golled**. I weithio hyn allan, mae'n rhaid i ni wneud swm tynnu.

| | Tynnu | £ Punt | | Degolyn | c Ceiniog | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Incwm | - | | | . | | |
| Cyfanswm y Gwariant | | | | . | | |
| Cyfanswm yr Elw/y Golled | £ | | | . | | |